| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **9 Gorffennaf, 2026** |
| **TEITL** | **ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.** |
| **AWDUR** | **Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

## 3. Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr o arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2025 a 2026 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella.

3.2 Rydym wedyn yn nodi os yw'r gweithrediadau a nodwyd yn yr ymateb sefydliadol wedi eu cwblhau, neu y dyddiad y disgwylir iddyn gael eu cyflawni.

## 4. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.